Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Diweddaru'r Strategaeth Genedlaethol ar 'Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol' 2022-2026.

Chwefror 2022

Cyflwyniad

Mae nifer y bobl hŷn sy'n byw yng Nghymru yn cynyddu. Mae ffigurau diweddar yn dangos bod 866,006 o'r bobl sy'n byw yng Nghymru dros 60 oed ar hyn o bryd. Amcangyfrifir y bydd y nifer yn codi i 956,000, neu 30% o'r boblogaeth erbyn 2026, ac i 1,015,000 neu 31%, erbyn 2031[1]. Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd, amcangyfrifir y bydd nifer y bobl hŷn sy'n cael eu cam-drin yn codi wrth i nifer y bobl hŷn o fewn y boblogaeth gynyddu [2]. Dangosodd astudiaeth Sefydliad Iechyd y Byd fod 1 ym mhob 6 person dros 60 oed yn profi camdriniaeth ledled y byd. Mae hynny'n golygu y gallai 140,000 o'r bobl hŷn hynny sy'n byw yng Nghymru fod mewn perygl o gael eu cam-drin neu'n profi camdriniaeth.[3]

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn cyflawni rôl statudol annibynnol, gyda'r swyddogaethau canlynol:

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru a'r angen i ddiogelu'r buddiannau hynny
- Hyrwyddo darparu cyfleoedd ar gyfer atal gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru
- Annog arfer gorau wrth drin pobl hŷn yng Nghymru
- Parhau i adolygu pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r ddeddfwriaeth a'r polisïau sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru

Mae atal cam-drin pobl hŷn yng Nghymru yn flaenoriaeth i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae'r Comisiynydd wedi bod yn bryderus am y cynnydd mewn lefelau cam-drin drwy gydol

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag:
Andrea Cooper, Arweinydd Diogelu
03442 640 670 // andrea.cooper@olderpeoplewales.com

y pandemig Covid 19 a sefydlodd ‘Grŵp Gweithredu Atal Cam-drin’ (sy’n cael ei oruchwylio gan y Grŵp Llywio ‘Atal Cam-drin’), i helpu i sicrhau bod pobl hŷn sydd mewn peryglo gael eu cam-drin neu’n wynebu camdriniaeth, yn cael lefelau uwch o ddiogelwch ar hyn o bryd. Drwy gydweithio, mae aelodau'r grwpiau hyn wedi datblygu strategaeth chwe lefel ar gyfer atal cam-drin pobl hŷn yng Nghymru [4].

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn croesawu’r cyfle i ymateb i’r ymgynghoriad i ddiweddaru’r strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Daw’r wybodaeth a’r arbenigedd gan aelodau'r grwpiau Gweithredu a Llywio wrth baratoi'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad. (Mae ymateb ar y cyd, ar wahân, hefyd yn cael ei gyflwyno gan amrywiol aelodau o’r ‘Grŵp Gweithredu Atal Cam-drin’.

Y cwestiynau sy'n dilyn y rhifau yn y ddogfen ymgynghori gyflawn.

Cwestiwn Un
Rydym wedi nodi ein prif flaenoriaethau yn yr Amcanion. Ydych chi o’r farn mai dyma'r blaenoriaethau cywir?

Mae'r blaenoriaethau a restrir yn y ddogfen ymgynghori yn hollbwysig i atal Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae pwysigrwydd mabwysiadu dull ataliol drwy herio agweddau negyddol tuag at fenywod, yr angen am hyfforddiant proffesiynol digonol a darparu gwasanaethau priodol i gefnogi'r rhai sy’n wynebu Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, yn cael eu cydnabod. Mae’r Comisiynydd yn poeni serch hynny, heb gamau penodol wedi'u targedu, na fydd anghenion pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu’n profi camdriniaeth, yn cael eu diwallu’n ddigonol drwy weithredu’r strategaeth arfaethedig.

Mae’r sefyllfa bresennol ymhell o fod yn gydradd, ac mae oedolion hŷn sy’n cael eu cam-drin yn wynebu heriau cymhleth ychwanegol, sy’n gwneud eu hamgylchiadau sydd eisoes yn anodd a thrawmatig yn waeth:

Mae Camdriniaeth Pobl Hŷn yn Aweledig:

Mae'r ddogfen ymgynghori yn tynnu sylw'n briodol at bwysigrwydd codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae’r angen i godi ymwybyddiaeth am gam-drin pobl hŷn yn arbennig o uchel. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth am gam-drin pobl hŷn yn brin iawn ar hyn o bryd. Nid yw profiadau ac anghenion pobl hŷn yn y maes hwn wedi bod yn flaenoriaeth i ymchwil academaidd [5] [6]. Mae’n amlwg bod prinder ymchwil sy'n gwerthuso effeithiolrwydd ymyriadau wedi'u targedu,

o ran atal cam-drin pobl hŷn[7]. Mae'r nifer fach o ddata ymchwil sydd ar gael yn rhoi darlun anghyflawn. Er enghraifft, mae'r Arolwg Troseddu ar gyfer Cymru a Lloegr (CSEW) yn amcangyfrif bod 5.5% o oedolion 16 i 74 oed wedi profi cam-drin domestig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (cyfanswm o 2.3 miliwn o bobl) [8]. Ar hyn o bryd, nid yw'r CSEW yn casglu data ar gyfer pobl dros 74 oed, sy'n golygu ei fod yn amhosibl cael cyfraddau o ba mor gyffredin yw cam-drin pobl hŷn. Mae pwysigrwydd data cywir, wedi'i ddadgyfuno yn ôl oedran wrth bennu niferoedd pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu'n wynebu camdriniaeth yn cael ei gydnabod, ac yn dilyn galwadau gan y Comisiynydd ac eraill, bydd y trothwy oedran hwn yn cael ei dynnu; bydd y data ar gyfer pob oed ar gael am y tro cyntaf drwy'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 2023. [9]

Mae anawsterau pennu pa mor gyffredin ydyw yn cael ei ddwysáu gan y ffaith bod nifer o bobl hŷn yn aml yn gyndyn iawn i riportio sefyllfaoedd o gam-drin. Nododd yr adroddiad 'Bywydau Diogel' a gyhoeddwyd yn 2016, bod pobl hŷn, ar gyfartaledd, yn goddef camdriniaeth ddwywaith cyn hired â'r rhai o fewn grwpiau iau cyn gofyn am gymorth neu gefnogaeth[10]. I rai pobl, gall datgelu camdriniaeth fod yn heriol dros ben oherwydd eu bod yn ddibynnol yn ariannol neu'n gorfforol ar y sawl sy'n cam-drin[11]. Efallai ei bod yn arbennig o heriol i bobl hŷn siarad am fathau penodol o gam-drin, fel cam-drin rhywiol. Mae rhai oedolion hŷn yn poeni na fydd datgelu cam-drin rhywiol yn cael ei gymryd o ddifri; gan boeni y gallai agweddau sy'n wahaniaethol o ran oed arwain at ragdybiaethau bod pobl hŷn yn "anrhywiol" ac felly ddim yn gallu wynebu cam-drin o'r natur hwn.[12] Gall teimladau o ofn, stigma a chywilydd olygu bod lefelau datgelu yn arbennig o isel ymhlith y rheini yn y gymuned LHDT+ neu grwpiau o gymunedau ethnig lleiafrifol[13]. Mae'n hysbys bod y tebygolrwydd o ddynion yn cael eu cam-drin yn cynyddu gydag oed[14]. Gall dynion hŷn fod yn arbennig o gyndyn i riportio camdriniaeth oherwydd normau rhyweddol sy'n ymwneud â gwrywdod ac hunan-ddibyniaeth.[15]

Cymorth Proffesiynol:

Mae diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gamdriniaeth sy'n cael ei phrofi gan bobl hŷn yn cael effaith sylweddol ar eu lles corfforol ac emosiynol. Mae'n arwain, er enghraifft, at ddarpariaeth annigonol o ran gofal a chymorth effeithiol. Nid yw rhai gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl hŷn yn adnabod sefyllfaoedd o gam-drin (gan dybio o bosib bod Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn fater i 'fenywod ifancach'). [16] Mewn sefyllfaoedd o'r fath, nid yw oedolion hŷn yn cael eu cyfeirio at y mathau o wasanaethau a allai helpu i hybu eu diogelwch.

Mae ymchwil yn dangos bod pobl hŷn yn parhau i fod dan anfantais yn y *ffyrdd* y maent yn cael cymorth ac ymyrraeth, hyd yn oed pan fydd gweithwyr proffesiynol yn adnabod arwyddion o gam-drin posibl. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, mae tueddiad i ymarferwyr ystyried cam-drin pobl hŷn fel 'cam-drin pobl oedrannus' fel mater o drefn, a all fod yn broblematig am sawl rheswm. Wrth siarad am 'gam-drin pobl oedrannus', mae gweithwyr

proffesiynol fel arfer yn disgrifio'r un mathau o ymddygiad camdriniol sydd wedi'u cynnwys o fewn diffiniadau o Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae disgrifio'r gamdriniaeth a brofir gan oedolion hŷn fel 'cam-drin pobl oedrannus' serch hynny, yn aml yn arwain at ymatebion gwahanol iawn ar ran gweithwyr proffesiynol.[17] Yn gyffredinol, caiff 'cam-drin pobl oedrannus', ei ystyried fel rhywbeth sy'n deillio o straen darparu gofal hirdymor; fel bod ymyriadau ymarferwyr wedyn yn canolbwyntio ar liniaru'r lefelau hyn o straen (drwy er enghraifft, darparu gofal dydd neu wasanaethau seibiant) [18]. Awgrymir bod ymatebion gweithwyr proffesiynol tuag at sefyllfaoedd o 'gam-drin pobl oedrannus' yn llawer 'mwy meddal' na'r ymatebion a geir i ddatgelu camdriniaeth drwy lens Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. O ganlyniad, mae rhai menywod hŷn wedi cael cynnig mathau 'amhriodol' o gefnogaeth, sydd i bob pwrpas, yn methu â herio eu sefyllfaoedd camdriniol, ac yn hytrach, eu cynorthwyo i 'ymdopi' â'u profiadau camdriniol (e.e. cwnsela neu feddyginiaeth gwrth-iselder ar bresgripsiwn). [19] Gall ystyried cam-drin pobl hŷn fel 'cam-drin pobl oedrannus' arwain at ymarferwyr yn anwybyddu "lefel droseddol y gweithredoedd a fyddai'n cael eu trin fel rhai troseddol pe bai'r dioddefwyr yn ifancach".[20]

Gwasanaethau:

Mae hefyd yn wir bod pobl hŷn sy'n cael eu cam-drin wedi bod dan anfantais o ran darparu gwasanaethau. Nid yw nifer o bobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu'n wynebu camdriniaeth yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael wrth gynnig cymorth iddynt ac mae rhai yn tybio bod gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn bodoli ar gyfer 'pobl ifancach' yn unig. Canfu astudiaeth a wnaed ar ran y Comisiynydd fod 41% o fenywod hŷn a 48% o ddynion hŷn ddim yn gwybod ble i gael cefnogaeth pe byddent yn cael eu cam-drin.[21]

Yn 2021, comisiynodd y Comisiynydd ymchwil i fapio ehangder ac ansawdd gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ledled Cymru ac i weld pa mor briodol oedd y gwasanaethau hynny wrth ddiwallu anghenion pobl hŷn. Dangosodd canfyddiadau'r ymchwil, er bod amrywiaeth eang o wasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gael ar draws Cymru (bod nifer o'r gwasanaethau hyn yn wasanaethau i bobl 'o bob oed' mewn egwyddor), roedd nifer o sefydliadau ddim yn ystyried sut gallai fod angen addasu eu gwasanaethau i ddiwallu anghenion penodol pobl hŷn. [22] [23]

Mae hefyd yn hanfodol bod darparwyr gwasanaethau yn mabwysiadu agwedd ragweithiol tuag at sicrhau bod eu gwasanaethau yn sensitif i anghenion amrywiol pobl hŷn ac yn parchu'r anghenion hynny. Nid yw'r boblogaeth hŷn yn boblogaeth unffurf, ac mae gan oedolion hŷn anghenion ac amgylchiadau gwahanol iawn, a fydd, yn anochel, yn llywio eu profiadau o gamdriniaeth**.** Mae 'Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn' [24] yn nodi y dylai pobl hŷn allu byw yn rhydd o 'gamdriniaeth gorfforol a meddyliol'; cael

mynediad at ‘wasanaethau cymdeithasol a chyfreithiol i wella eu hannibyniaeth, eu diogelwch a’u gofal’ ac y dylai’r ystod o wasanaethau sydd ar gael i’r sector hwn o’r boblogaeth adlewyrchu eu hanghenion a’u dewisiadau amrywiol.

Mae nifer o sefydliadau gwahanol yn darparu gwasanaethau sy'n rhan o rwydwaith cyffredinol o ddarpariaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a ‘diogelu’. Fel rhan o’i strategaeth i roi terfyn ar gam-drin pobl hŷn yng Nghymru, mae’r Comisiynydd wedi ceisio ymgysylltu â phobl hŷn sydd â phrofiad o gael eu cam-drin. Disgrifiodd un o’r bobl hŷn yr anawsterau a wynebodd wrth gael mynediad i’r cymorth roedd ei angen arni a soniodd am yr heriau a brofodd, wrth weithio ei ffordd drwy’r ‘ddrysfa’ o wahanol sefydliadau a darparwyr gwasanaethau. I ailadrodd, mae angen gwybodaeth glir ar bobl hŷn wrth gael mynediad at wasanaethau. Bydd ‘un man canolog’ (unigolyn sydd wedi’i enwi) hefyd yn bwysig i helpu i lywio pobl hŷn drwy’r system gymhleth o ddarparu gwasanaethau.

Pwysigrwydd Blaenoriaethu Cam-drin Pobl Hŷn yn y Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Mae’r dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adrannau blaenorol yn awgrymu bod pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu’n profi camdriniaeth, yn wynebu nifer o heriau ychwanegol. Yn wir, y gallai pobl hŷn fod dan anfantais sylweddol o’i gymharu â’r rhai iau, mewn amgylchiadau tebyg. Mae effeithiau cam-drin ar bobl hŷn yn aml yn sylweddol, gan arwain at anaf corfforol a thrallod seicolegol hirdymor. Mae teimladau o “feio eich hunan a stigma…(llai o) hunan-barch…(llai o) sgiliau ymdopi cyffredinol … iselder, aflonyddwch cwsg, …ynysu … anobaith a (chynnydd mewn teimladau o ddibyniaeth” [25] yn gyffredin ymhlith oedolion hŷn sy’n cael eu cam-drin. Gwelwyd hefyd fod camdriniaeth yn cynyddu cyfraddau marwolaethau ymhlith pobl hŷn. [26]

Mae anghydraddoldebau ar lefel cynllunio a darparu gwasanaethau yn annerbyniol ac mae cryn dipyn o waith i'w wneud i sicrhau yr eir i'r afael â’r anghydraddoldebau. Mae angen dybryd i hybu dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gam-drin pobl hŷn. Efallai y gellir cyflawni hynny drwy ymchwil wedi'i thargedu a systemau casglu data wedi'u dadgyfuno'n well (sy'n dangos pa mor gyffredin yw cam-drin pobl hŷn). Mae angen dybryd hefyd i fuddsoddi mewn ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth penodol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gam-drin pobl hŷn ac i wella gwybodaeth a dealltwriaeth o’r gwasanaethau sydd ar gael. Mae gan gamau strategol o'r fath y potensial i wneud gwahaniaeth sylweddol ym mhrofiadau byw oedolion hŷn, drwy er enghraifft, sicrhau bod cam-drin pobl hŷn yn cael ei gydnabod yn ehangach a bod pobl hŷn yn cael eu cyfeirio at y gwasanaethau priodol ar adegau o’r fath.

Mae mynd i’r afael â cham-drin pobl hŷn yn fater cymhleth a heriol. Mae angen hanfodol am hyfforddiant gwell i staff i gynyddu ymwybyddiaeth o gam-drin pobl hŷn ac i hyrwyddo sgil a

chymhwysedd gweithwyr rheng flaen wrth fynd i'r afael â'r mater hwn. I sicrhau nad yw elfen droseddol ymddygiadau yn cael eu hanwybyddu, mae angen i hyfforddiant o'r fath herio canfyddiadau 'cam-drin oedolion hŷn' fel 'cam-drin pobl oedrannus'. Mae enghreifftiau o 'arfer da' yn y maes hwn, yn dangos pa mor bwysig yw hi i weithwyr proffesiynol fabwysiadu dulliau ymarfer 'sy'n seiliedig ar berthnasoedd' [27]. Mae dulliau o'r fath yn hollbwysig i ymarferwyr ddeall anghenion ac amgylchiadau unigol y rhai y maent yn gweithio gyda nhw ac i sicrhau ymatebion cyfranogol i ymyrraeth.

Dylid rhoi sylw ar unwaith hefyd i fynd i'r afael â'r "gagendor ideolegol" rhwng gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a diogelu.[28] Mae'r ddogfen ymgynghori'n cydnabod y gwahanu rhwng y ddwy system o ran darparu gwasanaethau ond nid yw'n manylu ar y camau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau datblygu dull integredig o ddarparu gwasanaethau. Mae angen i wasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a diogelu gydweithio i sicrhau yr eir i'r afael ag anghenion pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu'n wynebu camdriniaeth mewn ffyrdd holistig a theg.

Cwestiwn 2: Ydych chi o'r farn mai'r dull gweithredu cyffredinol y byddwn yn ei ddefnyddio, fel y nodir yn yr adrannau ar y Glasbrint, yw'r un cywir i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?

Is-grwpiau: Un ffordd o sicrhau blaenoriaethu priodol o ran cam-drin pobl hŷn yw drwy ddatblygu 'is-grŵp' sy'n canolbwyntio'n benodol ar y mater hwn. Dadleuir y bydd yr is-grŵp yn hollbwysig i hyrwyddo camau gweithredu priodol a phenodol ar ran pobl hŷn sy'n cael eu cam-drin ac i sicrhau bod anghenion y grŵp hwn yn cael eu cydnabod ar draws holl elfennau polisi ac ymarfer Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Argymhellir y bydd aelodau'r is-grŵp hwn yn hyrwyddo anghenion pobl hŷn sy'n cael eu cam-drin ar draws yr holl is-grwpiau eraill a argymhellir o fewn yr ymgynghoriad (codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo cynhwysiant) a bydd yn herio ffyrdd pobl eraill o feddwl i ennyn a gwella dealltwriaeth o gam-drin pobl hŷn.

Strwythur Llywodraethu: Wrth sicrhau bod camdriniaeth pobl hŷn yn cael ei blaenoriaethu o fewn y strategaeth, rhaid i'r byrddau rhanbarthol gynnwys aelodaeth o'r cyrff penodol hynny sy'n cefnogi pobl hŷn, sy'n deall anghenion y grŵp hwn ac sy'n gwerthfawrogi cymhlethdodau mynd i'r afael â cham-drin pobl hŷn. Rhaid gwneud pob ymdrech hefyd i sicrhau bod pobl hŷn sydd wedi cael eu cam-drin yn cael eu cynnwys ar y 'byrddau rhanbarthol'. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y materion penodol sy'n cael eu hwynebu gan bobl hŷn o ran Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cael eu cydnabod a'u deall.

Cwestiwn 3 - Rydym wedi nodi'r egwyddorion sy'n sail i'r Strategaeth Genedlaethol ddrafft. Ydych chi'n cytuno â'r rhain?

Strategaeth Gynhwysfawr / Dull Cydraddoldeb:

Mae'r egwyddor o 'groestoriadedd' yn cydnabod bod rhai unigolion yn wynebu risg uwch o gael eu cam-drin oherwydd eu nodweddion gwarchodedig. Mae ymchwil sydd eisoes yn bodoli yn dangos am sawl rheswm (e.e. mwy o unigedd, dibyniaeth ar eraill am ofal corfforol neu salwch fel dementia), bod pobl hŷn mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin.[29] Mae angen gweithredu ar frys i oresgyn yr anfanteision penodol a wynebir gan bobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu'n wynebu camdriniaeth ac i sicrhau cydraddoldeb o ran darparu gwasanaethau a chymorth.

Mae anghenion y bobl hŷn hynny sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu'n wynebu camdriniaeth wedi eu hymyleiddio'n sylweddol o fewn polisi ac ymarfer cyfredol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae'r Comisiynydd yn galw am flaenoriaethu camdriniaeth pobl hŷn o fewn y strategaeth ddiwygiedig. Dim ond drwy ffocws penodol sydd wedi'i dargedu ar anghenion a phrofiadau pobl hŷn sy'n cael eu cam-drin y gellir sicrhau cydraddoldeb.

Mae'r ddogfen yn tynnu sylw at y ffaith bod y rhan fwyaf o'r cam-drin yn cael ei wneud gan ddynion tuag at fenywod, ac felly'n mabwysiadu 'dull sy'n canolbwyntio ar rywedd' i fynd i'r afael â Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (er enghraifft, drwy herio agweddau a stereoteipiau negyddol, rhyweddol).

Mae gan y Comisiynydd bryderon nad yw anghenion dynion sy'n cael eu cam-drin yn cael eu hadlewyrchu'n dda yn y strategaeth hon. Fel y nodwyd eisoes, mae'r tebygolrwydd o ddynion yn cael eu cam-drin yn cynyddu gydag oedran. Heb ystyriaeth ddyladwy, mae'n debygol bod dynion hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu'n wynebu camdriniaeth, yn parhau ar y cyrion, ac ni fyddant yn derbyn lefelau digonol o gymorth a chefnogaeth. Comisiynodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ymchwil yn ddiweddar i archwilio cam-drin domestig ymhlith dynion hŷn. Rhagwelir y bydd canfyddiadau'r astudiaeth hon yn tanlinellu'r sialensiau penodol sy'n wynebu dynion hŷn wrth wynebu camdriniaeth a'r angen i ddatblygu darpariaeth gwasanaeth arbenigol priodol yn y maes hwn.

Cwestiwn 4 – Ydych chi'n cytuno â'n blaenoriaethau uniongyrchol?

Mae mynd i'r afael â cham-drin pobl hŷn yn gofyn am sylw brys, ac fel y dywedwyd eisoes, dylid ei wneud yn flaenoriaeth o fewn y strategaeth.

Awgrymir rhoi blaenoriaeth ar unwaith i:

Buddsoddi mewn ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth penodol i wella gwybodaeth a dealltwriaeth o gamdriniaeth pobl hŷn ac i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael i bobl hŷn, ar adegau o'r fath.

Sicrhau bod gwasanaethau digonol a phriodol ar gael i bobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu'n wynebu camdriniaeth. Fel y nodwyd eisoes, mae'n rhaid i'r gwasanaethau hyn fod yn sensitif i realiti anghenion amrywiol a phrofiadau byw pobl hŷn ac i adlewyrchu hynny.

Datblygu hyfforddiant i weithwyr proffesiynol sy'n canolbwyntio ar gam-drin pobl hŷn ac sy'n galluogi ymarferwyr i ddeall cyfyngiadau'r cysyniad o gam-drin pobl hŷn fel 'cam-drin pobl oedrannus'.

Datblygu strategaeth i hyrwyddo'r broses o integreiddio Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a systemau diogelu.

Cwestiwn 8 - Sut y dylem fesur cynnydd a llwyddiant wrth gyflawni'r pethau a amlinellir yn y Strategaeth hon?

Mae'r Comisiynydd yn argymell yn gryf y dylid datblygu dangosyddion mesur penodol i bennu effaith y strategaeth wrth wella sefyllfaoedd pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu'n wynebu camdriniaeth. Mae'n bwysig bod y strategaeth yn cynnig ffordd o sicrhau bod cynnydd digonol yn cael ei wneud yn y maes hwn; bod cam-drin pobl hŷn yn derbyn lefelau uwch o gydnabyddiaeth a bod gwasanaethau digonol ac ymatebol yn cael eu datblygu i ddiwallu anghenion pobl hŷn ar adegau o'r fath.

Casgliadau

Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn ystyried diweddaru'r strategaeth gyfredol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol fel cyfle pwysig i wella bywydau pobl hŷn sy'n cael eu cam-drin yng Nghymru. Tra'n cydnabod y cynnydd a wnaed hyd yma yn y maes hwn (gan gynnwys cydnabod pobl hŷn fel dioddefwyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn y ddogfen ymgynghori), mae'r Comisiynydd yn argymell yn gryf bod y mater hwn yn cael blaenoriaeth uwch o lawer o fewn y strategaeth.

Byddai'r Comisiynydd yn falch o ddarparu mwy o wybodaeth ac i drafod yr ymateb hwn yn fanwl os oes angen.

[1] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2021). Adroddiad Cyflwr y Genedl. Ar gael yn: Cyflwr y Genedl (olderpeoplewales.com)
[2] Sefydliad Iechyd y Byd (2021). Elder Abuse. Available at: Elder abuse (who.int)
[3] Sefydliad Iechyd y Byd (2017). Abuse of Older People on the Rise – 1 in 6 affected. Available at: https://www.who.int/news/item/14-06-2017-abuse-of-older-people-on-the-rise-1-in-6-affected
[4] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru: Strategaeth i Roi Terfyn ar Gam-drin Pobl Hŷn Strategy_to_End_the_Abuse_of_Older_People_website.sflb.ashx (olderpeoplewales.com)
[5] Fang, B. and Yan, E. 2018. Abuse of Older Persons with Dementia: A Review of the Literature. Trauma, Violence and Abuse 19(2), pp. 127-147.
[6] Bows, H. 2017. Researching sexual violence against older people: reflecting on the use of freedom of information requests in a feminist study. Feminist Review 115(1), pp. 30-45.
[7] Baker, P., Francis, D.P., Hairi, N. Othman, S. and Choo, W.Y. 2016. Interventions for preventing abuse in the elderly (review). Cochrane database of Systematic Reviews.
[8] Swyddfa Ystadegau Gwladol (2020). Domestic abuse prevalence and trends, England and Wales: year ending March 2020. Available at: Domestic abuse prevalence and trends, England and Wales - Office for National Statistics (ons.gov.uk)
[9] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2021). *Gwasanaethau Cymorth i Bobl Hŷn sy'n Profi Camdriniaeth yng Nghymru.* Ar gael yn: Gwasanaethau_Cymorth_i_Bobl_Hŷn_sy'n_Profi_Camdriniaeth_yng_Nghymru.sflb.ashx (olderpeoplewales.com)
[10] Safe Lives (2016). Safe Later Lives: Older People and Domestic Abuse. Available at: Safe Later Lives - Older people and domestic abuse.pdf (safelives.org.uk)
[11] Milne, A. 2020. Mental Health in Later Life. Bristol: Policy Press.
[12] Milne, A. 2020. Mental Health in Later Life. Bristol: Policy Press.
[13] 'Inside Out' Organisational Solutions (2021). Report into the Support Services Available in each Local Authority in Wales for Older People Experiencing Violence Against Women, Domestic Abuse, Sexual Violence and Financial Abuse.
[14] Swyddfa Ystadegau Gwladol 2021. Domestic Abuse in England and Wales Overview (November 202): Domestic abuse in England and Wales overview - Office for National Statistics (ons.gov.uk)
[15] Kosberg, J.I. 2009. The Abuse of Older Men: Implications for Social Work. Australian Social Work 62(2), pp. 202-215.
[16] [16] McGarry, J., Simpson, C. and Hinchliff-Smith, K. 2011. The Impact of Domestic Abuse for Older Women: A Review of the Literature. Health and Social Care in the Community 19(1), pp. 3-14.
[17] Bows, H. in Lombard, N. (2018). The Routledge Handbook of Gender and Violence. Routledge: London.
[18].[18] Hightower, J., Smith, M.J. and Hightower, H.C. (2006). Hearing the Voices of Abused Older Women. The Journal of Gerontological Social Work 46 (3-4) pp. 205-227
[19] Bows, H. in Lombard, N. (2018). The Routledge Handbook of Gender and Violence. Routledge: London.
[20] Hightower, J., Smith, M.J. and Hightower, H.C. (2006). Hearing the Voices of Abused Older Women. The Journal of Gerontological Social Work 46 (3-4) pp. 205-227.
[21] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2021). Adroddiad Cyflwr y Genedl. Ar gael yn: Cyflwr y Genedl (olderpeoplewales.com)
[22] Inside Out' Organisational Solutions (2021). Report into the Support Services Available in each Local Authority in Wales for Older People Experiencing Violence Against Women, Domestic Abuse, Sexual Violence and Financial Abuse.
[23] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2020). Accommodation and Support for Older People Experiencing Abuse. Ar gael yn: Accommodation_Workshop_Report.sflb.ashx (olderpeoplewales.com).
[24] Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Personau Hŷn (UN Principles (olderpeoplewales.com)
[25] Penhale, B. (2003). Older Women, Domestic Violence, and Elder Abuse: A Review of Commonalties, Differences and Shared Approaches. Journal of Elder Abuse and Neglect 15(3-4), pp. 163-183.
[26] Lachs, M.S., Williams, C.S. and O'Brien, S. (1998). The Mortality of Elder Mistreatment. Journal of American Medical Association (230), pp. 428-432.

[27] [27] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2021). *Gwasanaethau Cymorth i Bobl Hŷn sy'n Profi Camdriniaeth yng Nghymru.* Ar gael yn: http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Gwasanaethau_Cymorth_i_Bobl_H%c5%b7n_sy_n_Profi_Camdriniaeth_yng_Nghymru.sflb.ashx

[28] Milne, A. 2020. Mental Health in Later Life. Bristol: Policy Press.
[29] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2021). *Gwasanaethau Cymorth i Bobl Hŷn sy'n Profi Camdriniaeth yng Nghymru.* Ar gael yn: http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Gwasanaethau_Cymorth_i_Bobl_H%c5%b7n_sy_n_Profi_Camdriniaeth_yng_Nghymru.sflb.ashx

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gwarchod ac yn hybu hawliau pobl hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisïau ac arferion i wella eu bywydau. Mae'n darparu help a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn drwy ei thîm gwaith achosion ac mae'n gweithio i rymuso pobl hŷn ac i sicrhau bod eu llais cael ei glywed ac y gweithredir ar hynny. Mae rôl y Comisiynydd yn seiliedig ar gyfres o bwerau cyfreithiol unigryw i'w chefnogi gydag adolygu gwaith cyrff cyhoeddus a'u dal yn atebol lle bo angen.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu i roi terfyn ar wahaniaethu a rhagfarn ar sail oedran, i atal cam-drin pobl hŷn ac i alluogi i bawb heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd eisiau i Gymru fod y lle gorau yn y byd i heneiddio.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

E-bost: ask@olderpeoplewales.com

Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Twitter: @talkolderpeople